



# Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2019/2020



# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae ymarfer a pherfformiad cyffredinol yn y maes Plant yn ei gyfanrwydd yn gadarn. Bu i Adroddiad Arolygiad Llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru ym mis Awst 2018 gadarnhau hynny. Bu iddynt adnabod sawl maes i'w ddatblygu ymhellach, ac rydym dros y flwyddyn ddiwethaf wedi mynd ati i ymateb i'r rheiny drwy'r Strategaeth Cefnogi Teulu a rhaglenni gwaith ein unedau.

Rydym wedi ehangu ar y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth gan ganolbwyntio ar sut mae teuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth. Sefydlwyd Hwb gwybodaeth rhithiol (Hwb Teuluoedd Gwynedd), gyda rolau Cysylltwyr Cymunedol hefyd yn rhan o'r gwasanaeth.

Drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth mae teuluoedd yn cael mynediad at gefnogaeth amserol. Mae modd i deuluoedd gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau therapiwtig a chefnogol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Rydym yn parhau i adolygu yr hyn sydd ar gael i deuluoedd ac yn ystod 2019-2020 bu i ni wneud gwaith peilota ar y cyd ag Y Bont a Barnados o amgylch rheoli gwrthdaro mewn teuluoedd, a chefnogi llesiant plant er mwyn cyfarch anghenion lleol.

Rydym yn parhau i gynnal safonau uchel wrth ymateb i gyfeiriadau, a all fod yn rhai diogelu, neu rhai ag angen gofal a chefnogaeth.

Yn yr un modd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol wedi cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd.

**80%** **Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod 2019/20**




Fel rhan o waith dydd i ddydd y timau gweithredol o fewn yr adran, mae'r gweithwyr yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth broffesiynol. Yn ogystal â hyn, mae ganddynt yr opsiwn i fynd ar ofyn ymyrraethau mwy arbenigol os yw'n briodol. Mae'r Tîm Trobwynt yn gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Maent yn gallu cefnogi y Timau Gwaith Cymdeithasol a theuluoedd gyda materion megis riantu, cwnsela, cam-ddefnyddio sylweddau, cyfarfodydd er mwyn tynnu aelodau'r teulu estynedig i mewn, cymedroli, therapi teuluol, cefnogaeth ymdopi gyda phrofiadau plentyndod negyddol (ACE'S). Rydym yn parhau i ddatblygu'r gefnogaeth arbenigol yma yn ddibynnol ar anghenion ac adborth teuluoedd.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r Tîm yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol. Er i'r nifer o blant mewn gofal gynyddu yn ystod cyfnod gweithredu'r tîm, mae'r nifer o blant mewn lleoliadau maeth neu leoliadau preswyl wedi aros yn sefydlog.

Ddiwedd Mawrth 2020 roedd 291 o blant yng ngofal Cyngor Gwynedd. O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros gyfnod o 5 mlynedd mae'r cyfanswm wedi cynyddu o 194 i 291, sef cynnydd o bron i 50%. Serch hyn mae'r nifer o blant sydd mewn lleoliadau preswyl wedi aros yn gyson, a phlant mewn lleoliadau maeth wedi lleihau o 74% i 69% o boblogaeth plant mewn gofal.

### Plant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor



Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn parhau i ymwneud â phlant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor, sydd wedi codi o 27 i 60 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Mae proffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid; mae cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd â chymhlethdod a dwyster achosion. Mae diffyg argaeledd lleoliadau preswyl mwy arbenigol hefyd yn her enfawr i'r Adran. Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r gost cynyddol sydd ynghlwm â nhw yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Ar lefel ranbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Adrannau Plant y Gogledd, rydym wedi bod yn cydweithio ar sefydlu Tim Is-Ranbarthol Aml-ddisgyblaethol fyddai'n darparu cefnogaeth ddwys, tymor byr i deuluoedd ag anghenion dwys a chymhleth. Er i ni ddatblygu achos busnes, cytuno ar y rolau amrywiol ar y cyd gyda'n partneriaid iechyd ac addysg, ynghyd â chychwyn y broses recriwtio, bu rhaid oedi'r cynllun peilot pan gychwynnodd yr argyfwng Coronafirws.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal. Yn ystod 2019-2020 bu i ni adolygu rôl y Swyddogion hyn yn dilyn adborth gan blant a phobl ifanc o'u profiad, ynghyd ag adborth gan yr Arolygiad Llawn. Mae'r swyddogion wedi ymateb i'r hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc gan addasu eu trefniadau a'u ffordd o weithio.

**Yn ôl ein Swyddogion Adolygu Annibynnol mae 94% o adolygiadau yn uchelgeisiol dros y plant sydd mewn gofal**



Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tim Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw adref. Serch hyn mae sicrhau capasiti ac argaeledd rhieni maeth yn her.

Mae clywed a gwrando ar lais y plentyn wedi parhau yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd yn ein gofal.

Yn ogystal, mae gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd sydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae'r rhesymau am unrhyw lithriad yn y perfformiad wedi ei herio ac yn ymwneud yn helaeth a salwch aelodau o staff, argaeledd cyd-weithwyr o gyrff statudol eraill ac argaeledd teuluoedd. Mae'r oedi ar y cyfan yn fychan (dyddiau) ac mae'r oediadau sydd yn hirach wedi eu asesu yn ofalus a ddim wedi golygu ardrawiad annerbyniol ar y plentyn.

Mae'r cynllun arloesol 'Diogelu Plant Effeithiol' yn parhau ar waith. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn dangos gwelliant amlwg o ran effeithiolrwydd ein gwaith diogelu gyda gwell ffocws ar newid i gadw plant yn ddiogel. Ein nod fydd rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da. Mae'r gwaith yn cael ei gefnogi gan ddatblygiad pecyn ymarfer a deunyddiau dysgu o bell i raeadru'r gwaith i siroedd eraill.

Rydym yn ffodus iawn o'r partneriaethau llwyddiannus sydd gennym gyda'r Bwrdd Iechyd, ysgolion, yr Heddlu a nifer fawr o fudiadau trydydd sector. Yn ystod 2019/20 rydym wedi gweld y gwaith partneriaethol hwnnw yn datblygu yn arbennig felly i gyd-gynhyrchu ymyraethau, a threfniadau ar gyfer atal problemau rhag codi. Rydym wedi cydweithio gyda'r Heddlu ar raglen hyfforddiant uchelgeisiol i'r gweithlu heddlu drwy y Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd; rydym hefyd wedi sefydlu Rhaglen Trawsnewid y Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer creu un gyfundrefn integredig ar gyfer gofal, addysg, iechyd a chwarae; ac rydym hefyd wedi arwain ar sefydlu Llwybr Llesiant Emosiynol i Bobl Ifanc 11-25 oed.

Rydym yn ffodus iawn o'n gweithlu eto eleni. Mae'n staff yn ymroddedig a phrin fu'r trosiant yn ein gweithlu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ddiwedd y flwyddyn bu i holl wasanaethau a gweithlu yr Adran fireinio eu hymdrechion tuag at gefnogi plant a theuluoedd drwy argyfwng y Coronafirws. Llwyddodd yr Adran

i gadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd drwy ymweliadau, galwadau cadw mewn cyswllt a drwy gyfryngau rhithiol. Roedd yr Adran, fwy nag erioed, yn ymdrechu i gefnogi sefydlogrwydd teuluoedd a lleoliadau, a sicrhau pob cefnogaeth posibl i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rydym wedi arwain ar sicrhau cyflenwad bwyd i deuluoedd bregus ac i bobl ifanc sy'n gadael gofal; rydym wedi sicrhau fod nwyddau babi yn cyrraedd teuluoedd Dechrau'n Deg; a chefnogi cynlluniau i greu a darparu Pecynnau Gweithgareddau Celf, Garddio a Sachau Chwarae i gartrefi drwy'r sir. Mae pobl ifanc y sir wedi elwa o fforymau sgwrsio a chymorth ar lein, gweithgareddau cymdeithasol fel creu miwsig, cwis, ffitrwydd a choginio ar lein i gyd yn ymgais i adeiladu gwydnwch a hyrwyddo llesiant mewn cyfnod anodd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**